



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# Torri Coed Fforest Fawr – Cwestiynau Cyffredin

## **Pam eich bod chi'n torri coed yn Fforest Fawr?**

Yn anffodus mae coed llarwydd Fforest Fawr wedi cael eu heintio gan *Phytophthora Ramorum*, afiechyd a adnabyddir gan amlaf fel clefyd y llarwydd. Bydd y coed yn cael eu torri yn rhan o strategaeth genedlaethol i atal lledaeniad yr afiechyd.

## **Sawl coeden sydd wedi cael eu heffeithio gan y clefyd?**

Mae oddeutu 6.7 miliwn o goed yng Nghymru wedi cael eu heffeithio.

## **Sawl coeden fydd yn cael eu torri yn Fforest Fawr?**

Mae oddeutu 4000 o goed llarwydd yn Fforest Fawr, a bydd angen torri pob un ohonynt. Rydym yn bwriadu cyflawni'r gwaith mewn dau gyfnod, er mwyn i ni allu cadw ardaloedd o'r goedwig yn agored i'r cyhoedd trwy'r adeg.

[Mae'r map hwn yn dangos o le bydd y coed llarwydd yn cael eu tynnu.](#)

## **Faint o'r goedwig sydd wedi cael ei heffeithio?**

Mae oddeutu 50 hectar o larwydd yn Fforest Fawr, a'r goedwig gyfan yn gorchuddio tua 120 hectar. Bydd y gwaith o dorri'r llarwydd yn cael ei wneud mewn dau doriad o 25 hectar yr un er mwyn lleihau'r effaith ar bobl ac ar fywyd gwyllt.

Mae cyfansoddiad naturiol y goedwig yn golygu bod y llarwydd wedi'u britho ymysg rhywogaethau eraill yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Dim ond mewn un ardal o'r goedwig ceir trwch o larwydd, a bydd angen toriad llwyr yno o ganlyniad.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd bydd y llarwydd yn cael eu torri gan adael yr haenau o brysgwydd, coed, a llystyfiant o dan y prif ganopi. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o'n cynllun yn debycach i deneuo na thoriad llwyr.

[Gweler canran gorchudd coed llarwydd ar y map hwn.](#)

## **Pryd fydd y gwaith yn dechrau?**

Bydd y cyfnod cyntaf yn dechrau ar y 5<sup>ed</sup> o Fedi 2018, a'r ail gyfnod yn dechrau ym mis Medi 2021.

## **Am faint fydd y gwaith yn parhau?**

Rydym yn amcangyfrif bydd y cyfnod cyntaf yn parhau am oddeutu chwe mis, yn ddibynnol ar y tywydd ac amodau'r ddaear.

### **Faint o'r goedwig fydd ar gau yn ystod y cyfnod cyntaf?**

Wedi cychwyn y torri, byddwn yn ymdrechu i leihau'r effaith ar ymwelwyr pan fo modd gwneud hynny, ond er diogelwch bydd rhaid cau ambell ardal. Byddwn yn arwyddo unrhyw wyriadau yn eglur, a bydd llwybrau mynediad yr ardaloedd caeedig yn cael eu ffensio.

Os bydd y gwaith yn cael ei gwblhau'n gyflym, byddwn yn ceisio ailagor llwybrau cyhoeddus a llwybrau eraill o fewn yr ardaloedd caeedig, gan addasu'r arwyddion a'r gwyriadau yn ôl yr angen.

Diogelwch ein gweithwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r goedwig yn ein blaenoriaeth, felly mae'n hollbwysig fod pawb yn dilyn y gwyriadau a pharchu'r ardaloedd caeedig yn ystod y cyfnod hwn. Gall mentro oddi wrth y gwyriadau tua'r ardaloedd torri beri i'r gwaith gael ei oedi, neu arwain at ragor o ardaloedd yn cael eu cau.

[Mae'r map hwn yn dangos y parth gwahardd torri coed a pha llwybrau fydd dal ar agor.](#)

### **A fydd y maes parcio yn cau?**

Bydd y maes parcio ar gau am 3 wythnos gan gychwyn ar y 3<sup>ydd</sup> o Fedi 2018, pan fyddwn yn torri coed sy'n agos i lwybr y gwyriad. Ar ôl hynny, bydd yn ailagor a bydd modd i bobl ddefnyddio'r llwybrau gwyriad.

### **Faint o'r gloch fydd y contractwyr yn gweithio?**

Bydd yr ardal sydd wedi'i heffeithio ar gau 24/7 yn ystod y cyfnod torri. Er y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod oriau gwaith, efallai bydd rhaid i'n contractwyr weithio ar benwythnosau. Pan na fydd gwaith yn cael ei gwblhau, bydd y safle yn parhau i gael ei gysidro fel gweithle ac yn beryglus. Ni fydd caniatâd i'r cyhoedd fentro i'r ardaloedd yn ystod y cyfnodau yma.

### **Sut fydd y loriau cludo yn cyrraedd ac yn gadael y safle?**

Y bwriad yw i'r loriau coed droi i'r chwith wrth adael y maes parcio gan ymuno a'r A469 ar ben y bryn, a thrwy hynny osgoi pentref Tongwynlais.

### **Faint o loriau fydd yn mynd a dod trwy'r dydd?**

Bydd uchafswm o 6 lori bob diwrnod. Rydym wedi gofyn i'r loriau coed deithio gyda'i gilydd er mwyn lleihau'r effaith yn ystod y dydd. Bydd loriau a pheiriannau yn mynd a dod o'r maes parcio gan deithio'r lon goed. Dylai ymwelwyr fod yn ymwybodol o hyn a bod yn bwylllog.

### **Beth ydych chi'n ei wneud i warchod bywyd gwyllt yn ystod y toriadau?**

Mae arolygon trylwyr o'r goedwig wedi adnabod yr ardaloedd sy'n sensitif o ran bywyd gwyllt, gan gynnwys:

- Arolwg ystlumod gan arbenigwyr allanol
- Gosod canfodydd i asesu symudiad ystlumod
- Arolwg adar arbenigol, gan gynnwys creu ardaloedd caeedig o gwmpas safleoedd sensitif. Byddwn yn osgoi gweithio yn ystod y tymor nythu.
- Monitro moch daear gan gynnwys y defnydd o gamerâu bywyd gwyllt i ddilyn eu symudiad.
- Arolwg pathewod. Bydd yr holl waith yn cael ei gwblhau yn ôl yr arferion gorau a chyda thrwydded pathewod. Byddwn hefyd yn dilyn yr arferion gorau, megis cadw coed llydanddail a chyfyngu'r toriad o brysgwydd, er mwyn lleihau'r niwed i gynefin y pathew.
- Rydym wedi ymgynghori â Chadwraeth Gloynnod Byw ynglŷn â'n cynlluniau ac am ffyrdd o leihau'r niwed i loynnod byw yn y goedwig.
- Mae Asesiad Rheoliadau Cynefin wedi cael ei gwblhau, ni ddylai'r gwaith niweidio neu effeithio ar Ardal Gadwraeth Arbennig Coedwigoedd Ffawydd Caerdydd

### **A fydd torri'r llarwydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd?**

Rydym yn ymwybodol fod y lôn sydd rhwng Fforest Fawr a Fforest Ganol yn tueddu i orlifo yn ystod cyfnodau o law trwm. Cyngor Caerdydd sy'n rheoli'r mater yma. Mae gennym Gynllun Rheoli Dŵr ac mae ein harbenigwyr llifogydd wedi cynnig cyngor ac wedi awgrymu mesurau i atal unrhyw gynnydd yn y perygl o ddŵr yn cyrraedd y lôn o ganlyniad i'n gweithredoedd ni.

### **A fydd marchogaeth yn cael ei ganiatáu yn y goedwig yn ystod y torri?**

Mae gennym berthynas adeiladol a phositif gyda Chymdeithas Marchogaeth Prydain, yn ogystal â choncordat sy'n caniatáu marchogaeth hyd ein lonydd coed a'n llwybrau ceffylau.

Yn anffodus bydd y llwybr ceffyl presennol yn cael ei effeithio ym mis Medi pan fyddwn yn cychwyn torri'r llarwydd. Rydym yn ceisio cyfyngu effaith hynny, ac yn gobeithio na fydd y llwybr ar gau yn hirach nac ychydig fisoedd. Ni fydd pen pellaf y goedwig, ger Tŷ Rhiw, yn cael ei effeithio yn y cyfnod hwn.

O ganlyniad i'r ystod eang o ymwelwyr hamdden gwahanol allai ddefnyddio'r llwybrau, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r cerddwyr a'r anabl sy'n defnyddio'r safle.

### **Beth fydddech chi'n ei wneud i atal beicio a marchogaeth ar y llwybr cerfluniau teuluol?**

Ni ddylid defnyddio'r llwybr cerfluniau i farchogaeth nac i feicio, gan mai llwybr cyhoeddus ydyw.

Rydym yn gosod arwyddion newydd yn ogystal â giât mochyn ger mynedfa'r llwybr cerfluniau. Bydd yr arwyddion yn datgan yn glir mai cerddwyr yn unig sydd i ddefnyddio'r llwybr.

Rydym yn deall bydd rhai o ddefnyddwyr y goedwig yn teimlo rhwystredigaeth yn ystod y cyfnodau pan fydd ardaloedd ar gau, ond dim ond hyn a hyn allwn ni gynnig yn ddiogel mewn safle o'r maint yma. Rydym yn gobeithio bydd pawb sy'n defnyddio'r goedwig yn ystyriol ac yn amyneddgar gyda'i gilydd, ac yn gwerthfawrogi ein bod ni'n ymdrechu i gadw cymaint o'r goedwig yn agored ag sy'n bosibl.

### **Beth am yr ysgolion sy'n defnyddio'r goedwig?**

Ni fydd unrhyw ganiatâd am ysgol goedwig yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bydd maes parcio'r bysiau wedi cau er diogelwch, a does dim cyfleusterau yn y maes parcio arferol. Rydym hefyd yn ymwybodol y byddai grwpiau mawr o ddisgyblion ysgol yn cyrraedd maes parcio sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan beiriannau a lorïau mawr. Rydym wedi hysbysu'r ysgolion unai yn unigol neu trwy'r Awdurdod Addysg Leol, a bydd modd ailgychwyn o Fawrth 31<sup>ain</sup> 2019 ymlaen. Rydym eisoes wedi cydweithio â rhai ysgolion er mwyn canfod safleoedd addas eraill.

### **A fydd coed yn cael eu hail-blannu yn dilyn y toriadau?**

Wedi i ni orffen torri'r coed byddwn yn hybu coed cynhenid y goedwig – megis ffawydd, derw, bedw, ceirios, criafol, a chyll – i hadu'n naturiol. Byddwn yn monitro'r goedwig dros y blynyddoedd canlynol i ystyried os oes angen plannu rhagor o goed neu ddim. Hwn yw'r dewis amgenach ar gyfer Adfer Coedwigoedd Hynafol Lled-naturiol yn ôl Safonau Coedwig y DU.

### **Pam eich bod chi'n plannu yng Nghwmcarn ond nid Fforest Fawr?**

Rydym yn gwybod fod pridd ffrwythlon a ffynonellau da o had yn Fforest Fawr o ganlyniad i'r niferoedd cynaliadwy o goed llydanddail cynhenid sydd yno. Rydym eisoes wedi gweld y coed yma'n lledaenu'n naturiol hyd lonydd yn ogystal â'r safleoedd lle'r ydym wedi bod yn teneuo. Mae gennym hyder fod y safle'n addas, ac mewn safleoedd sydd â'r gallu i hadu'n naturiol dyma'r dull dewisol o ail-stocio gan ei fod yn creu coetir sy'n fwy naturiol.

Gan fod Cwmcarn wedi cael ei blannu fel cnwd pinwydd dwys, pan dorrwyd y coed nid oedd llawer o'r coed llydanddail cynhenid wedi goroesi, a doedd dim ffynhonnell dda o had.

### **Sut fydd y goedwig yn newid wedi i chi orffen torri?**

**Rydym yn gobeithio y bydd y goedwig yn le gwell i bobl yn ogystal â bywyd gwylt.**

Mae ein cynlluniau ar gyfer y toriadau yn manteisio ar sawl cyfle i wella cynefinoedd a bywyd gwyllt. Er enghraifft, byddwn yn agor ymylon lonydd y goedwig ac yn creu ymyl anghyson er mwyn gwella cynefinoedd rhywogaethau megis y fritheg arian yn ogystal â denu rhywogaethau newydd.

Pan fydd llarwydden benodol yn anodd iawn i'w chyrraedd, a phan fydd ei thorri'n gwneud mwy o niwed na budd, byddwn yn gadael y boncyff a thorri'r corun yn unig. O wneud hyn byddwn yn caniatáu i foncyff trwchus o bren marw barhau i sefyll, rhywbeth sy'n gynefin bwysig o fewn coetir a fydd yn cyfrannu tuag at gyflwr cyffredinol y goedwig.

Wedi i ni gwblhau'r torri, rydym yn bwriadu ail-ddylunio'r goedwig ar gyfer gweithgareddau hamdden, er budd cerddwyr, beicwyr, a marchogwyr. Byddwn yn ddiolchgar o unrhyw adborth ynglŷn â'r ffyrdd o gyflawni hyn gan y grwpiau gwahanol sy'n defnyddio'r safle.